WNO
WELSH NATIONAL OPERA
CENEDLAETHOL CYMRU

Le Vin herbé
Frank Martin

Le Vin herbé

Gan Frank Martin

Mewn drefniant gyda Universal Edition A G Wien

Cyfieithwyd i'r Saesneg gan Hugh Macdonald

Perfformiad llwyfan cyntaf y gwaith cyfan: 15 Awst 1948, Tonhalle, Zürich.

Perfformiad cyngerdd cyntaf yn y DU o'r gwaith cyfan: 30 Ionawr 1948, Central Hall, Llundain.

Perfformiad cyntaf y cynhyrchiad hwn o *Le Vin herbé* gan Opera Cenedlaethol Cymru: 16 Chwefror 2017, Canolfan Mileniwm Cymru, Caerdydd.

Cydgynhyrchiad rhwng Opera Cenedlaethol Cymru a Theater St Gallen

Cenir mewn Saesneg

By Frank Martin

By arrangement with Universal Edition A G Wien

English translation by Hugh Macdonald

First staged performance of complete work: 15 August 1948, Tonhalle, Zürich.

First UK concert performance of complete work: 30 January 1948, Central Hall, London.

First performance of this production of *Le Vin herbé* by Welsh National Opera, 16 February 2017, Wales Millennium Centre, Cardiff.

A co-production between Welsh National Opera and Theater St Gallen

Sung in English

© Opera Cenedlaethol Cymru
Mae'r rhaglen hon wedi'i diogelu'n llawn gan hawlfraint ac ni ellir atgynhyrchu unrhyw gynnwys heb ganiatâd.

© Welsh National Opera
This programme is fully protected by copyright and nothing may be reproduced without permission.

Le Vin herbé

cymeriadau yn nhrefn y canu
characters in order of singing

Storïwyr | Storytellers
Cwmni llawn | Full Company

Mam Esyllt | Iseult's mother
Catherine Wyn-Rogers

Esyllt Deg Tywysoges Iwerddon
Iseult the Fair Princess of Ireland
Caitlin Hulcup

Brengain ei chymdeithes
Brangien her companion
Rosie Hay

March *Brenin Cernyw* | Mark *King of Cornwall*
Howard Kirk

Trystan *ei nai* | Tristan *his nephew*
Tom Randle

Y Dug Hoël *uchelwr o Lydaw*
Duke Hoël *a nobleman of Brittany*
Stephen Wells

Kaherdin *ei fab* | *his son*
Gareth Dafydd Morris

Esyllt Law Wen *ei ferch*
Iseult of the White Hands *his daughter*
Sian Meinir

Adroddwyr unigol | Solo narrators
Anitra Blaxhall, Rosie Hay, Sarah Pope, Joe Roche, Howard Kirk, Stephen Wells,Catherine Wyn-Rogers

Arweinydd | Conductor
James Southall

Cyfarwyddwr | Director
Polly Graham

Dylunydd | Designer
April Dalton

Dylunydd Goleuo | Lighting Designer
Tim Mitchell

Paratoad Cerddorol | Musical Preparation
David Doidge, James Southall, Stephen Wood

Cyfarwyddwr Symudiad | Movement Director
Jo Fong

Cyfarwyddwr Staff | Staff Director
Matthew Holmquist

Rheolwr Cynhyrchu | Production Manager
Richard Norton

Rheolwr Llwyfan | Stage Manager
Katie Heath-Jones

Dirprwy Reolwr Llwyfan
Deputy Stage Manager
Jenni Price

Setiau wedi adeiladu a pheintio gan
Opera Cenedlaethol Cymru

Bydd y perfformiad yn para tua 1 awr a 50 munud
gan gynnwys un egwyl

Scenery built and painted by
Welsh National Opera

The performance will last approximately
1 hour and 50 minutes with one interval

Crynodeb o’r plot
Plot summary

Mae Esyllt Deg, Tywysoges Iwerddon, yn cael ei chymryd dros y môr i briodi March, Brenin Cernyw, gan Trystan, ei nai. Teimlai’n isel iawn ei hysbryd ac mae’n casáu Trystan am ei dwyn oddi wrth ei mamwlad ac am ladd ei darpar ŵr mewn brwydr. Yn ystod y daith mae’r ddau, ar gam, yn yfed diod serch hud a gymysgodd mam Esyllt ar gyfer Esyllt a March ar noson eu priodas. Syrthia Trystan ac Esyllt yn ddiobaith ac yn ddiwrthdro mewn cariad.

Mae’r cariadon yn rhedeg i ffwrdd o lys y Brenin March i fyw yn y gwyllt. Daw March ar draws y ddau yn cysgu ond nid yw yn eu brifo. Mae Trystan ac Esyllt yn difaru y niwed y maent wedi ei achosi i eraill a’u hunain. Dychwel Esyllt i’r Brenin March a Trystan i Lydaw, ei famwlad.

Ar ôl blynyddoedd prioda Trystan Esyllt Law Wen. Pan gaiff Trystan ei glwyfo yn farwol mewn brwydr, hiraetha i weld Esyllt Deg am un tro olaf. Dychwel hi ato ond yn rhy hwyr; mae Trystan wedi marw. Gorwedda Esyllt i lawr i farw wrth ei ochr.

Iseult the Fair, Princess of Ireland, is being taken by sea to marry King Mark of Cornwall by Mark’s nephew, Tristan. She is deeply unhappy and hates Tristan for taking her away from her homeland and for having killed her fiancé in battle. During the journey they mistakenly drink a love potion concocted by Iseult’s mother and intended for Iseult and Mark on their wedding night. Tristan and Iseult fall hopelessly and irrevocably in love.

The lovers run away from King Mark’s court to live in the wild. Mark discovers them sleeping but leaves them unharmed. Tristan and Iseult regret the hurt they have caused others and themselves. Iseult returns to King Mark and Tristan to his homeland of Brittany.

Years pass and Tristan marries Iseult of the White Hands. When he is fatally wounded in battle, he longs to see Iseult the Fair one last time. She returns to him but too late; Tristan is dead. Iseult lies down to die beside him.

WNO *Le Vin herbé* Catherine Wyn-Rogers (Mam Esyllt | Iseult’s mother). Llun gan | Photo by Robert Workman

Le Vin herbé
Crynodeb | Synopsis

Prolog

Mae storïwyr yn ein gwahodd i glywed hanes Trystan ac Esyllt.

Act Un

Wrth i Esyllt Deg, Tywysoges Iwerddon baratoi i hwylio i Gernyw, yn groes i'w hewyllys, i briodi'r Brenin March, mae ei mam yn paratoi diod hud yn ddirgel. Mae'n siarsio cymdeithes Esyllt, Brengain, i gadw'r ddiod ynghudd hyd noson y briodas, ac i'w dywallt bryd hynny i gwpan priodasol i'r pâr priod ei yfed gyda'i gilydd. Mae gan y ddiod y grym i beri i'r rhai sy'n ei yfed syrthio dros eu pennau a'u clustiau mewn cariad.

Hwylia'r llong o Iwerddon. Mae Esyllt yn ddig wrth Trystan, nai'r Brenin March, am iddo ladd Morold, ei dyweddi, ac am ei fod yn ei dwyn o'i mamwlad. Mae Esyllt yn melltithio'r llong a'i thynged: byddai'n well ganddi farw ar ei thir ei hun na byw yng ngwlad y Brenin March.

Mae'r gwynt yn gostegu a'r haul yn disgleirio'n danbaid. Rho Trystan orchymyn iddynt lanio ac aiff y criw i'r lan. A'r ddau'n sychedig, galwa Trystan am ddiod i Esyllt ac iddo'i hunan. Trwy gamgymeriad, mae Brengain yn rhoi'r ddiod hud iddyn nhw; wedi ei yfed, mae'r ddau'n syrthio dros eu pen a'u clustiau mewn cariad. Wrth i'r llong barhau â'i thaith tua Chernyw, sylweddola Trystan ei fod mewn cariad â darpar wraig ei ewythr a'i dad maeth, Y Brenin March. Mae e ac Iseult mewn gwewyr mawr oherwydd eu cariad dilafar tuag at ei gilydd. Mae Brengain yn anobeithio wrth i'r cariadon gofleidio ei gilydd, yn ddi-hid o'r canlyniadau.

Act Dau

Priododd Esyllt y Brenin March a chael ei gorseddu'n Frenhines ond canfu y Brenin March ei chariad tuag at Trystan ac fe garcharwyd y ddau. Dihangodd Trystan ac achubodd Esyllt a daeth y ddau o hyd i loches yng nghoedwig Marois gyda'u cydymaith, Gorvenal.

Prologue

Storytellers invite us to hear the story of Tristan and Iseult.

Act One

As the knights of Cornwall prepare to take Iseult the Fair, Princess of Ireland, back with them to Cornwall, to marry Mark, their King, her mother concocts a magic potion in secret. She instructs Iseult's companion, Brangien, to keep the potion hidden until Iseult's wedding night, when she must pour it into a bridal cup for the newlyweds to drink together. It has the power to make those who drink it fall deeply in love.

The ship sets sail from Ireland. Iseult is angry with Tristan, King Mark's nephew, for killing Morold, her fiancé, and for taking her away from her homeland. Iseult curses the ship and her fate: she would rather die in her own land than live in the land of King Mark.

The wind drops and the sun blazes down. Tristan gives the order to land and the crew goes ashore. Finding themselves thirsty, Iseult and Tristan call for a drink. Iseult's young maid mistakenly gives them the magic potion thinking it is wine; they drink and fall hopelessly in love. As the ship continues its journey to Cornwall, Tristan realises that he loves the future wife of his uncle and foster father, King Mark. He and Iseult are tormented by their unspoken love for one another. Brangien warns them they have drunk their 'love and death' in the potion, but she knows it is too late – the lovers are too deeply involved to turn back. Tristan and Iseult surrender to their passion.

Act Two

Iseult has been married to King Mark and made Queen, but the love affair with Tristan has continued. On discovering this, King Mark has imprisoned them both. Tristan escapes and rescues Iseult and together they find refuge in the forest of Morois with their companion, Gorvenal.

Mae'r Brenin March am ddial, a phan ddaw o hyd iddynt yn cysgu, mae ar fin eu lladd pan wêl gleddyf allan o'i wain yn gwahanu'r ddau gorff wrth iddynt gysgu. Penderfyna eu harbed ac mae'n gadael ei gleddyf ei hun yno yn arwydd iddo ddewis bod yn drugarog.

Mae Trystan yn anhapus ei fod wedi llusgo Esyllt i fyw mor druenus o'r llaw i'r genau ac mae'r ddau ohonynt yn teimlo'n euog eu bod wedi bradychu'r Brenin March. Bydd Esyllt yn dychwelyd at y Brenin a bydd Trystan yn mynd yn alltud, i'w famwlad yn Llydaw.

A vengeful King Mark finds Tristan and Iseult lying asleep and is about to kill them when he sees an unsheathed sword lying between their sleeping bodies, keeping them apart. He decides to spare them and leaves his own sword behind as a sign that he chose to be merciful.

Tristan is sent into conflict by this sign. He remembers all that King Mark has done for him, and regrets his exile. Both Tristan and Iseult feel guilty at their betrayal of King Mark. They resolve to leave the forest; Iseult will return to the King and Tristan will go into exile, to his home country of Brittany.

EGWYL

INTERVAL

Act Tri

Mae Trystan yn crwydro'n ddiamcan am flynyddoedd, yn argyhoeddedig bod Esyllt wedi anghofio amdano. Mae'r Dug Hoël o Lydaw yn galw am Trystan ac yn ddiolch iddo am achub y wlad, caiff law ei ferch, Esyllt Law Wen yn wraig.

Wedi ei glwyfo'n angheuol mewn brwydr, mae Trystan yn dyheu am weld Esyllt Deg unwaith eto. Mae Esyllt Law Wen yn ei glywed yn gofyn i'w gyfaill, Kaherdin, fynd â modrwy i Esyllt Deg yn arwydd o'i gariad bythol ac ymbil arni i ddod ato. Dywed wrth Kaherdin am fynd â'i long orau ac am godi hwyl wen wrth ddychwelyd os bydd Esyllt gydag ef, neu hwyl ddu os nad yw hi.

Daw Esyllt Deg yn ôl gyda Kaherdin ond am gyfnod, mae'r llong yn methu hwylio. Ar ei wely angau, mae Trystan yn meddwl ei bod wedi gwrthod dod ato. Mae Esyllt Law Wen yn gweld y llong yn dod gyda'i hwyl wen, ond mae'n dweud celwydd wrth Trystan, gan ddweud bod yr hwyl yn ddu. O glywed hyn, mae Trystan yn marw.

O ganfod yr holl bobl yn galaru dros Trystan wedi iddi ddod i'r lan, aiff Esyllt Deg i orwedd a marw wrth ei ochr.

Mae'r Brenin March yn claddu'r cariadon gyda'i gilydd. Mae miaren yn tyfu rhwng y ddwy arch, a phob tro y caiff ei thorri'n ôl, mae'n tyfu eto yn yr un ffordd.

Act Three

Tristan wanders for years, convinced that Iseult has forgotten him. He helps Duke Hoël of Brittany fight a war with the Kingdom of Nantes. Duke Hoël summons Tristan and, in thanks for saving the country gives him his daughter, Iseult of the White Hands, as wife.

Fatally injured in battle, Tristan longs to see Iseult the Fair once more. Iseult of the White Hands overhears him asking his friend, Kaherdin, to take a ring to Iseult the Fair as a token of his enduring love and to beg her to come to him. He instructs Kaherdin to take his best ship and, on return, to display a white sail if Iseult is with him, a black sail if not.

Iseult the Fair returns with Kaherdin but their ship is becalmed. The dying Tristan thinks that she has refused to come to him. Iseult of the White Hands sees the ship approaching, flying a white sail, but lies to Tristan, telling him that the sail is black. Hearing this, Tristan dies.

Coming ashore to find all the people mourning Tristan's death, Iseult the Fair lies down and dies beside him.

King Mark buries the lovers side by side. A briar springs up between the two coffins, growing back each time it is cut down.

A wyddech chi? | Did you know?

Cafodd **Frank Martin** ei eni yng Ngenefa, yr ieuengaf **o ddeg o blant i glerigwr**. Roedd yn gwbl ymroddedig i gerddoriaeth o'r foment y clywodd berfformiad o'r *Dioddefaint yn ôl Sant Mathew* gan Bach pan oedd yn 12 oed.

Rhamant Trystan ac Esyllt, yn fersiwn Joseph Bédier oedd y sail ar gyfer yr opera. Cafodd ei chyfieithu o'r Ffrangeg gwreiddiol i'r Saesneg gan Hilaire Belloc, awdur toreithiog a gafodd gryn lwyddiant poblogaidd gyda'i *Cautionary Tales for Children*:

'Matilda told such dreadful lies
It made one gasp and stretch
one's eyes'.

Piler o wenithfaen yw **Carreg Trystan** ger Fowey yng **Nghernyw**. Mae ysgrifen Ladin ar y garreg sydd wedi ei dyddio i ganol y 6ed ganrif yn dweud '**Yma gorwedd Drustan**' (Trystan).

Frank Martin was born in Geneva, the tenth and **youngest child of a clergyman**. His devotion to music was single-minded after he heard a performance of Bach's *St Matthew Passion* at the age of 12.

The Romance of Tristan and Iseult, in the version byJoseph Bédier, was the basis for the opera. It was translated into English by Hilaire Belloc, a prolific writer who achieved widespread popular success with his *Cautionary Tales for Children*:

'Matilda told such dreadful lies
It made one gasp and stretch
one's eyes'.

The Tristan Stone is a granite pillar near Fowey in **Cornwall**, with an inscription dated to the 6th century reading '**Here lies Drustan**' (Tristan).

Mae unig opera lawn Martin, ***Der Sturm***, yn seiliedig ar *The Tempest* Shakespeare. Cafodd rôl Prospero ei hysgrifennu ar gyfer y bariton enwog o'r Almaen, ***Dietrich Fischer-Dieskau***, ac fe ganodd ddetholiad o'r rhan ar recordiad dan arweiniad y cyfansoddwr, ond oherwydd gwaeledd, **ni wnaeth fyth ganu'r rhan ar lwyfan**.

Ymhlith y cyfansoddwyr eraill sydd wedi cyfansoddi cerddoriaeth yn gysylltiedig â stori *Trystan ac Esyllt*, y mwyaf nodedig yw **Richard Wagner** (1865), ond mae **Olivier Messiaen** gyda'i symffoni *Turangalila* (1949), **Rutland Boughton** gyda *The Queen of Cornwall* (1924) a **Hans Werner Henze** â'i waith cerddorfaol *Tristan* (1974) hefyd wedi cyfrannu.

Ceir nifer o **fersiynau ffilm** o'r stori hefyd, megis ***Feuer und Schwert*** (Tân a Chleddyf), yn Almaeneg gyda Christoph Waltz yn rhan Trystan (1982); ***Pardes*** (1997), dehongliad cyfoes gan Bollywood wedi'i gyfarwyddo gan Subhash Ghai; a ***L'Éternel Retour*** (Y Dychwelyd Tragwyddol), a gyfarwyddwyd gan Jean Delannoy ym 1943, gyda sgript gan Jean Cocteau.

Martin's only full-scale opera, ***Der Sturm***, is based on Shakespeare's *The Tempest*. The role of Prospero was written for the great German baritone, **Dietrich Fischer-Dieskau**, who sang extracts from it on a recording conducted by the composer but, due to illness, **never sang the role on stage**.

Other composers who have written music around the story of *Tristan and Isolde* include, most notably, **Richard Wagner** (1865), but also **Olivier Messiaen** in his *Turangalila* symphony (1949), **Rutland Boughton** with *The Queen of Cornwall* (1924) and **Hans Werner Henze** in his orchestral work *Tristan* (1974).

Numerous **film versions** of the story include the German ***Feuer und Schwert*** (Fire and Sword), with Christoph Waltz as Tristan (1982); ***Pardes*** (1997), a contemporary Bollywood interpretation directed by Subhash Ghai; and ***L'Éternel Retour*** (The Eternal Return), directed by Jean Delannoy in 1943, with a screenplay by Jean Cocteau.

Stori fawr am gariad ac angau
A great story of love and death

'F'arglwyddi, boed i chi gael y pleser yn awr o glywed stori am gariad ac angau'. Felly y dechreua'r prolog i opera 1942 Frank Martin, *Le Vin herbé*, sy'n adrodd chwedl hynafol Trystan y marchog ac Esyllt y frenhines, sy'n syrthio mewn cariad ar ôl yfed diod hud (y 'gwin wedi'i drwytho â pherlysiau' sydd yn y teitl), ac yn marw yn y pen draw 'mewn un dydd, yntau trwyddi hi a hithau trwyddo ef'. Yr hyn sydd mor unigryw yn y modd y mae Martin yn ailadrodd y chwedl hon yw bod y cariadon yn byw ac yn marw yn ôl eu dyheadau eu hunain bron cymaint â thrwy ddyhead y corws; llais hollbresennol sy'n adrodd y stori ac yn rhoi potensial theatrig datguddiol i'r opera.

Bydd nifer o fynychwyr opera yn gyfarwydd â'r chwedl o opera Richard Wagner, *Tristan und Isolde* (1865): un o'r gweithiau cerdd mwyaf dylanwadol a gyfansoddwyd erioed. Er bod Martin yn edmygu'r cyfansoddwr o'r Almaen, fe greodd rywbeth cwbl wahanol yn ei fersiwn ef o'r hanes. Gyda saith offeryn llinynnol a phiano, dwy brif ran, a'r corws cyfnewidiol ei ffurf, sydd rywsut yn creu'r cymeriadau o'r amgylchfyd cerddorol sylfaenol hwn, nid opera gyffredin mo *Le Vin herbé*. Yn gerddorol, mae'r darn yn agosach at sibrwd tawel a rhyddiaith sillafog, swyn-ganiadol opera Claude Debussy, *Pelléas et Mélisande* (1893). Fel y gwnaeth Debussy, mae Martin yn cymryd stori chwedlonol am gariad gwaharddedig yn sail i'w libreto, ond yn wahanol i'r cyfansoddwr o Ffrainc, a ddewisodd osod drama Maurice Maeterlinck yn ei chyfanrwydd bron i gerddoriaeth, mae testun Martin wedi'i ffrwyno'n rhyfeddol.

Mae'n ddarn modernaidd iawn. Yn seiliedig ar stori Joseph Bédier, *Le Roman de Tristan et Iseult*, (1900), mae libreto Martin yn hepgor stori gefndir y Brenin March. Does dim synnwyr o'r amser sy'n mynd heibio rhwng digwyddiadau pwysig y plot – o yfed y diod hud, i briodas Esyllt a'r cariadon yn rhedeg i ffwrdd. I ychwanegu at yr ansefydlogi, cynllun darniog sydd i'r opera a'i 21 o olygfeydd.

'My lords, will it please you to hear a great story of love and death?' So begins the prologue to Swiss composer Frank Martin's 1942 opera, *Le Vin herbé*, which tells the ancient myth of Tristan the knight and Iseult the queen, who fall in love after drinking a magic potion (the 'herb-infused wine' of the title), and ultimately die 'in a single day, him through her, her through him.' What makes Martin's retelling of this myth so unique is the fact that the lovers live and die almost as much by their own desires, as by that of the chorus; an omnipresent narrative voice that gives the opera its revelatory theatrical potential.

The myth will be familiar to many opera-goers, from Richard Wagner's opera *Tristan und Isolde* (1865): one of the most influential pieces of music ever written. Although Martin admired the German composer, he created something wholly different in his version of the tale. With its seven string instruments and piano, two principal roles, and his shape-shifting chorus, who conjure the protagonists out of this sparse musical atmosphere, *Le Vin herbé* is not a typical opera, nor is it particularly 'operatic' in its vocal ornamentation. Musically, the piece is closer to the hushed whisperings and incantatory prose of Claude Debussy's opera (1893). Like Debussy, Martin takes a mythical story of *Pelléas et Mélisande* forbidden love as the basis for his libretto, but unlike the French composer, who chose to set almost the entirety of Maurice Maeterlinck's play to music, Martin's text is remarkable for its restraint.

It is quite a modernist piece. Based on Joseph Bédier's narrative, *Le Roman de Tristan et Iseult*, 1900), Martin's libretto omits the lengthy backstory of King Mark. There is no sense of how much time elapses between the major events of the plot in the opera – from drinking the fatal love potion, to Iseult's marriage, and the lovers' elopement. This destabilising effect is heightened by the fragmentary structure of the opera, and its 21 tableaux.

Roedd y cyfarwyddwr, Polly Graham, yn teimlo bod gan y darn naws fyfyriol, ac roedd hi eisiau arbrofi gyda'r rôl y gallai tawelwch ei chwarae rhwng y golygfeydd yma. Mae'r corws yn ychwanegu ymhellach at y dirgelwch a'r amwysedd. Trwy osod y corws yn adroddwyr stori hunanymwybodol, mae Martin yn tynnu ar draddodiad theatrig ehangach, a gysylltir yn agosach â *Verfremdungseffekt* (effaith ymddieithrio) dramâu Berthold Brecht nag ag estheteg hollgynhwysol operâu Richard Wagner.

Ni waeth am y cyffelybu cyd-destunol ingol y gellir ei wneud rhwng oes Martin a'r oes wleidyddol fodern, onid oes perygl y gallai cymeriadau Martin, ymddangos yn oer ac yn ddi-emosiwn heb y stori gefndirol? Yn ei lyfr *Reality Hunger* (2010), mae'r awdur Americanaidd David Shields yn trin a thrafod esblygiad ffurfiau llenyddol dros y 150 mlynedd ddiwethaf. 'Faint y mae modd ei dynnu oddi yno a pharhau'n ddealladwy?' gofynna. 'Roedd Chekhov yn dileu'r plot. Pinter, wrth ymhelaethu, yn dileu'r hanes a'r adrodd; Beckett, y cymeriadu. Rydym yn eu clywed beth bynnag. Mae hepgor yn ffurf ar greu.' Efallai y gall y datganiad diwethaf yna ein helpu i ddeall athrylith opera Martin, a'i gallu i daro tant gyda chynulleidfaoedd heddiw. Nid yn unig bod ei libreto cryno yn gwahodd amwysedd a dehongli; mae hefyd yn rhoi lle i'r gerddoriaeth fynegi bywydau emosiynol y cymeriadau, gan ein hatgoffa o wreiddiau Symbolaidd yr opera. Efallai bod defnydd Martin o symbolau yn deillio o awydd i greu rhywbeth sy'n wirioneddol finimalistaidd a mytholegol. Gall y perfformiad arllwys cymaint o ystyr ac emosiwn i mewn i'r symbolau hynny.

Un o'r gwrthrychau allweddol sydd â nifer o ystyron symbolaidd ydy'r diod hud, a gaiff ei gymysgu yn opera Martin gan fam Esyllt ac a roddir i Trystan ac Esyllt trwy gamgymeriad. Wrth i stori *Le Vin herbé* ddatblygu, mae'r byd sy'n gefnlen iddi yn un llawn trais a chreulondeb. Mae'r Brenin March yn teyrnasu dros Gernyw – cenedl sydd wedi bod yn brwydro yn erbyn Iwerddon Esyllt ers 40 mlynedd ar ddechrau'r stori. Mae'r Brenin March yn gyfrifol am drais arswydus yn erbyn menywod – ei gosb i Esyllt am fod yn anffyddlon yw ei gorfodi i fyw 'gyda'r gwahangleifion'. Mae'n amlwg bod y math hwn ar gosb yn ganoloesol; ond ar sawl cyfrif, mae i'r darn deimlad eithriadol o fodern.

The director Polly Graham felt the piece had a real meditative quality and wanted to explore the role that silence could play between these fragments. The chorus only adds to the mystery and ambiguity: by positioning the chorus as self-aware storytellers, Martin taps into a broader theatrical tradition, more closely linked to the *Verfremdungseffekt* (alienation effect) of Berthold Brecht's plays, than to the all-encompassing aesthetic of Richard Wagner's opera.

Regardless of the poignant contextual parallels that can be drawn between Martin's era and the modern political age, there is a danger that by stripping away so much substance from the text, Martin's characters risk becoming mere ciphers, cold and emotionless? In his book *Reality Hunger* (2010), the American writer David Shields ponders the evolution of literary forms over the last 150 years: 'How much can one remove and still have the composition be intelligible?' he asks. 'Chekhov removed the plot. Pinter, elaborating, removed the history, the narration; Beckett, the characterisation. We hear it anyway. Omission is a form of creation.' Perhaps that last statement helps to explain the genius of Martin's opera, and its ability to resonate with audiences today. Not only does his terse libretto invite ambiguity and interpretation; it also gives space for the music to express the emotional lives of the characters, reminding us of the opera's Symbolist roots. The way Martin uses symbols perhaps comes from a desire to create something that's really minimalist and mythical. Into these symbols the performance can pour so much meaning and so much emotion.

A key object with many symbolic meanings is of course the potion itself, which, in Martin's opera, is brewed by Iseult's mother, and is given to Tristan and Iseult in error. *Le Vin herbé* unfolds against a backdrop of violence and brutality. King Mark is the ruler of Cornwall; a nation which has been at war with Iseult's native Ireland for 40 years when the story begins. King Mark perpetrates shocking acts of violence against women – his punishment of Iseult's infidelity is to force her to live 'with the lepers'. Obviously this kind of punishment is very medieval; but in other respects the piece feels extremely modern.

Mae gerwinder yr amgylchfyd, gyda'i stormydd, y gwrthdaro di-ben-draw a theyrnasiad creulon y Brenin March, yn ein harwain hefyd at gwestiwn sylfaenol yr opera, sef, all cariad oroesi mewn byd creulon? Ac yntau'n cyfansoddi yn nyfnderoedd ei alar dros ei wraig gyntaf, efallai nad yw'n syndod bod 'cariad ac angau' ynghlwm â'i gilydd o eiriau cyntaf un gwaith Martin. Er bod y gerddoriaeth yn llawn prydferthwch hynod, yr ymdeimlad blaenaf yw unigedd. Ac eto mae rhyw gysur y gallwn ei gymryd o'r amgylchedd llwm hwn, ac fe ddaw hwnnw o'r ddelwedd drawiadol ar derfyn y gwaith. Wedi marwolaeth y cariadon, mae miaren hudol yn tyfu o fedd y naill a'r llall ac yn eu cydblethu a'u huno o'r diwedd. Mae'r hyn allai ymddangos yn ddiweddglo trasig ar rai adegau yn y stori yn rhyfedd o ddyrchafol yn opera Martin: Mae serch Trystan ac Esyllt tuag at ei gilydd yn wrthryfel yn erbyn cyfundrefn wleidyddol y Brenin March. Yn y cyd-destun hwnnw, nid oes teimlad bod angau yn rhywbeth negyddol.

Yn yr epilog, mae'r corws yn datgan eu bod 'wedi adrodd y stori hon i bawb sydd yn caru'. Mae *Le Vin herbé* yn archwiliad dwfn o gariad a'r natur ddynol. Cawn dystio i'r nerth bron yn annynol y mae'n ei ddwyn i Esyllt, yn ogystal â'r gwendid sy'n bwrw Trystan yn ei sgil. Bwysicaf oll, mae'r opera yn dweud wrthym pam y mae chwedl Trystan ac Esyllt wedi goroesi dros filoedd o flynyddoedd a pham y bydd yn para byth: Pan ddywed y corws bod y stori hon 'i bawb sydd yn caru', efallai bod hi'n stori ar gyfer pob bod dynol.

The harshness of the environment, with its storms, never-ending conflict and the brutal reign of King Mark, also leads us to the ultimate question that the opera poses, about where love can survive in a cruel world. Composing, as he was, from the depths of his own personal grief for his first wife, it is perhaps unsurprising that for Martin, 'love and death' are bound up together from the first words of the piece. Even though the music is full of moments of searing beauty, there is also an overriding sense of Martin's score is one of desolation. Yet there is some consolation which can be taken from this bleak landscape, and it comes from the striking image with which the piece ends. When the lovers die, a magical briar grows from each of their tombs, entwining and uniting them at last. What could seem like a tragic ending in some settings of the story is strangely uplifting in Martin's opera: Tristan and Iseult's passion for each other is a rebellion against King Mark's political regime. In that context, it feels as if death is not a negative thing.

In the epilogue, the chorus declare that 'they have told this story for all those who love'. *Le Vin herbé* is a profound exploration of love and human nature. We witness the near-inhuman strength it inspires in Iseult, as well as the weakness it engenders in Tristan. Most importantly of all, the opera tells us why the legend and romance of Tristan and Iseult has survived for thousands of years, and will continue to endure: When the chorus says this story is 'for all those who love', perhaps it is more a story for all humanity.

© Opera Cenedlaethol Cymru
Mae'r rhaglen hon wedi'i diogelu'n llawn gan hawlfraint ac ni ellir atgynhyrchu unrhyw gynnwys heb ganiatâd.

© Welsh National Opera
This programme is fully protected by copyright and nothing may be reproduced without permission.